**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 1999 Rhif 3465 (Cy.53)

# TAI, CYMRU

# MEWNFUDO, CYMRU

# Gorchymyn Cartrefi i Bobl Fyw Ynddynt (Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo) (Diwygio) (Cymru) 1999

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 9(1) o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol, cyn belled ag y bo'n ymarferol, sicrhau na fydd unrhyw denantiaeth o gartref i bobl fyw ynddo na thrwydded i feddiannu cartref i bobl fyw ynddo a ddarperir o dan Ran II o Ddeddf Tai 1985 (darparu cartrefi i bobl fyw ynddynt), heblaw cartrefi a ddyrennir o dan Ran VI o Ddeddf Tai 1996 (dyrannu cartrefi i bobl fyw ynddynt), yn cael ei rhoi i berson sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo oni fydd y person hwnnw yn perthyn i ddosbarth a bennir mewn gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r pŵer hwnnw, i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru, wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn yn pennu, at ddibenion yr adran honno, geiswyr lloches y mae'n ofynnol i awdurdod lleol roi cymorth iddynt, neu i'w dibynyddion, yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Atodlen 9 i Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

**The National Assembly for Wales**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1999 No. 3465 (W53)

# HOUSING, WALES

# IMMIGRATION, WALES

# The Housing Accommodation (Persons Subject to Immigration Control) (Amendment) (Wales) Order 1999

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 9(1) of the Asylum and Immigration Act 1996 requires a local housing authority, so far as practicable, to secure that no tenancy of, or licence to occupy, housing accommodation provided under Part II of the Housing Act 1985 (provision of housing accommodation), other than accommodation allocated under Part VI of the Housing Act 1996 (allocation of housing accommodation), is granted to a person subject to immigration control unless that person is of a class specified in an order made by the Secretary of State. That power, so far as exercisable in Wales, is now vested in the National Assembly for Wales

This Order specifies, for the purposes of that section, asylum-seekers to whom, or their dependants to whom, a local authority is required to provide support in accordance with regulations made under Schedule 9 to the Immigration and Asylum Act 1999.

This Order extends to Wales only.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 1999 Rhif 3465 (Cy.53)

# TAI, CYMRU

# MEWNFUDO, CYMRU

# Gorchymyn Cartrefi i Bobl Fyw Ynddynt (Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo) (Diwygio) (Cymru) 1999

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *3 Rhagfyr 1999* |
| *Yn dod i rym* | *6 Rhagfyr 1999* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 9 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996**(a)** a freiniwyd bellach ynddo i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru**(b)**:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cartrefi i Bobl Fyw Ynddynt (Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo) (Diwygio) (Cymru) 1999 a daw i rym ar 6 Rhagfyr 1999.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

**Ceiswyr lloches**

**2.** Yng Ngorchymyn Cartrefi i Bobl Fyw Ynddynt a Digartrefedd (Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo) 1996**(c)**, yn erthygl 3 (dosbarthiadau a bennir o dan adran 9(1)), ar y diwedd, ychwanegir—

"Class DG - an asylum-seeker to whom, or a dependent of an asylum-seeker to whom, a local authority is required to provide support in

(a 1996 p.49. Diwygiwyd adran 9, i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru a Lloegr, gan baragraff 3 o Atodlen 16 i Ddeddf Tai 1996 (p.52), a Rhannau VII a VIII o Atodlen 19 iddi.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1996/1982; O.S. 1998/139 yw'r offeryn diwygio perthnasol.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1999 No. 3465 (W53)

# HOUSING, WALES

# IMMIGRATION, WALES

# The Housing Accommodation (Persons Subject to Immigration Control) (Amendment) (Wales) Order 1999

| | |
|---|---|
| *Made* | *3rd December 1999* |
| *Coming into force* | *6th December 1999* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 9 of the Asylum and Immigration Act 1996**(a)** which are now vested in it so far as exercisable in Wales**(b)**:

**Citation, commencement and application**

**1.**—(1) This Order may be cited as the Housing Accommodation (Persons Subject to Immigration Control) (Amendment) (Wales) Order 1999 and shall come into force on 6th December 1999.

(2) This Order applies to Wales only.

**Asylum seekers**

**2.** In the Housing Accommodation and Homelessness (Persons Subject to Immigration Control) Order 1996**(c)**, in article 3 (classes specified under section 9(1)), at the end, there shall be added—

"Class DG - an asylum-seeker to whom, or a dependent of an asylum-seeker to whom, a local authority is required to provide support in

(a) 1996 c.49. Section 9, in so far as it extends to England and Wales, was amended by paragraph 3 of Schedule 16, and Parts VII and VIII of Schedule 19, to the Housing Act 1996 (c.52).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1996/1982; the relevant amending instrument is S.I. 1998/139.

accordance with regulations made under Schedule 9 to the Immigration and Asylum Act 1999**(a)**.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(b)**.

3 Rhagfyr 1999

*Jane Davidson*

Dirprwy Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

accordance with regulations made under Schedule 9 to the Immigration and Asylum Act 1999**(a)**.”.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(b)**.

3rd December 1999

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1999 p.33.

(b) 1998 p.38.

(a) 1999 c.33.

(b) 1998 c.38.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090028-6

9 780110 900285

**£1.50**

WO6051 02/00 ON